Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Adeiladau'r Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
info@ambitionnorth.wales

**AR E-BOST:** **Adrian.Jones@northwaleswildlifetrust.org.uk**

**Ein Cyf / Our Ref:** AW/AG-ls
**Eich Cyf / Your Ref:**
**Dyddiad / Date:** 17 Medi, 2025

Adrian Lloyd Jones,
Pennaeth Tirweddau Byw,
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Annwyl Mr. Jones,

**CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Medi, 2025. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth, gan nodi'r newidiadau a wnaed i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) mewn ymateb i'ch llythyr blaenorol ac ymatebion eraill a gawsom, ynglŷn â geiriad Dyhead SRN 3 yn yr RTP drafft.  Rydym yn croesawu eich cyfranogiad yn y broses hon hyd yma ac, ymhellach i'r ymateb hwn, yn cynnig cynnal cyfarfod efo chi i drafod unrhyw bryderon pellach sydd gennych.

**Dyhead SRN 3**

Roedd adran Pwyntiau Allweddol y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i CBC sy'n datblygu RTPs yn cynnwys, fel y dywedwch, yr angen i ganolbwyntio ar newid moddol a chael gwared ar y cymhelliant i ddefnyddio ceir. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hefyd yn nodi disgwyliad bod yr RTP yn ystyried cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth sydd:

- Eu hangen i gwrdd ag anghenion pobl sy'n byw neu'n gweithio yn y rhanbarth, sy'n ymweld neu sy'n teithio drwy'r rhanbarth;
- Yn angenrheidiol ar gyfer cludo nwyddau.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi sut mae'n rhaid i RTPs gynnwys trosolwg sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa drafnidiaeth bresennol a'r newidiadau tebygol dros gyfnod y cynllun - wedi'i gysylltu'n agos â chynllunio defnydd tir. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd a rhwystrau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a dylai gyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Mae rhwydwaith ffyrdd strategol Gogledd Cymru yn hanfodol i, ac mae'n siŵr y bydd yn parhau i fod yn hanfodol i, ddiwallu anghenion trigolion, cymudwyr ac ymwelwyr; ac mae'n hanfodol i ddiwallu anghenion y sector cludo nwyddau, a'n porthladdoedd.  Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a'n gwasanaethau yn cael eu hintegreiddio â'n rhwydwaith priffyrdd er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer newid moddol a lleihau allyriadau cerbydau preifat. Adlewyrchir hyn yn llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar yr RTP drafft.

Felly, rydym wedi ceisio cynhyrchu RTP sy'n ystyried cyd-destun materion ffyrdd a rheilffyrdd strategol er mwyn adlewyrchu'n gywir y problemau trafnidiaeth allweddol yng Ngogledd Cymru, fel y cefnogir gan dystiolaeth dechnegol ac adborth rhan-ddeiliaid. Mae gennym swyddogaeth statudol i ddatblygu polisïau trafnidiaeth yn y rhanbarth. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau'r RTP, rydym wedi bod yn glir

i beidio â chyflwyno polisïau yn yr RTP sy'n effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd strategol neu'r rhwydwaith rheilffyrdd, na chynnig cynlluniau yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, na allai ein partneriaid awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru eu cyflawni.

Ar ôl ystyried datblygiad yr RTP trwy'r broses benderfynu a sefydlwyd drwy drefn llywodraethu'r CBC, rydym yn fodlon ei fod yn gwneud yn glir nad oes gan y CBC, nac awdurdodau lleol, unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol: *"nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi opsiynau i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar y rhwydwaith ffyrdd strategol ac yn tynnu sylw at ddyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer Gogledd Cymru."* Dyma pam mae adran SRN y Cynllun yn cynnwys *dyheadau,* tra bod yr adrannau sy'n ymwneud â chyflawni rhanbarthol yn rhai lle mae gennym ddylanwad mwy uniongyrchol i ddatblygu polisïau y gallwn eu symud ymlaen.

Mae'r Dyhead SRN3 diwygiedig yn nodi barn y CBC bod angen adolygu'r achos dros gynlluniau priffyrdd strategol lle mae manteision ehangach posibl. Byddai unrhyw adolygiad yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, ac ni fyddai'n briodol rhagflaenu canfyddiadau unrhyw adolygiad yn yr RTP. Mae'r dyhead fel mae wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd yn cydnabod y dylai cynlluniau priffyrdd strategol sy'n effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd strategol gael eu hadolygu yng nghyd-destun darparu ystod ehangach o fanteision gan gynnwys hwyluso teithio cynaliadwy. Nid yw hyn yn mynegi cefnogaeth i unrhyw atebion a hyrwyddwyd yn flaenorol nac yn ceisio dylanwadu ar ganlyniad unrhyw adolygiad.

**Trafodaethau Parhaus y CBC gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol:**

Mae'r ymgysylltiad â'r Asiant Cefnffyrdd a Llywodraeth Cymru wedi ceisio helpu i sicrhau bod y testun sydd wedi'i gynnwys yn yr RTP yn adlewyrchu eu cynlluniau a'u safbwynt ar yr SRN. Mae ymgysylltu wedi digwydd trwy gyfarfodydd ar-lein rheolaidd i helpu i siapio'r RTP wrth ei ddatblygu. Fel rhan o gefnogaeth Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei adolygiad o'r RTP a dogfennau cysylltiedig ar gerrig milltir allweddol, mae wedi ymgysylltu â'i adrannau perthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w dimau trafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd.

**Fersiwn y NWRTP a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru**

Gallaf gadarnhau mai fersiwn yr RTP a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 yw'r fersiwn derfynol arfaethedig sydd wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, ar ôl i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ei ystyried ac yn dilyn penderfyniad y CBC i gymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf.

Ar ôl i'r CBC ei gymeradwyo, cyflwynwyd yr RTP i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru ac nid oes gennym unrhyw gyfle i wneud diwygiad pellach ar y cam hwn. Fodd bynnag, byddwn yn anfon eich gohebiaeth a'r ateb hwn at Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gweld y materion rydych wedi'u codi.

Yn gywir,

**Alwen Williams**
**Prif Weithredwr**